Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

26 Hydref 2016

Annwyl Gyfaill

Adolygiad o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru: Gweithredu

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar y gwaith o weithredu Adolygiad yr Athro Graham Donaldson, sef *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*.

Yn y cynllun gweithredu, '*Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes'* nodwyd mai'r nod oedd i'r cwricwlwm newydd fod ar gael erbyn 2018 ac iddo gael ei gyflwyno'n llawn yn 2021. Drwy gydol y broses o ddatblygu'r cwricwlwm newydd bydd y Pwyllgor, felly, yn monitro hynt y gwaith yn rheolaidd.

Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed gan randdeiliaid allweddol i'w helpu i graffu ar y modd y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi argymhellion yr adolygiad ar waith. Byddai'r Pwyllgor yn hoffi clywed am y canlynol yn benodol:

- cyfraniad y rhwydwaith o Ysgolion Arloesi at y gwaith o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd;
- y cydgysylltiad rhwng systemau dysgu proffesiynol effeithiol a'r gweithlu addysg ac addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon;
- trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu a phennu rôl y Bwrdd Cynghori Annibynnol, y Bwrdd Newid a'r Grŵp o Randdeiliaid Strategol; a
- materion eraill sy'n peri pryder a/neu sy'n bwysig yng nghyswllt datblygu cwricwlwm newydd i Gymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Bydd y Pwyllgor hefyd yn cymryd tystiolaeth lafar gan nifer o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys yr Athro Donaldson. I'n helpu gyda'r gwaith hwn, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn anfon eich ymatebion i'r pwyntiau uchod erbyn **11 Tachwedd 2016**.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC / AM
Cadeirydd / Chair